



YN Y BWLETIN TYMOR YMA

- ✓ DYDDIADAU PWYSIG
- ✓ PRESENOLDEB
- ✓ ARHOLIADAU
- ✓ GWISG YSGOL
- ✓ TYWYDD POETH
- ... A MWY

GAIR GAN Y PRIFATHRO

Dyma ni unwaith eto ar ddechrau tymor olaf y flwyddyn ysgol - tydi amser yn hedfan!

Mae tymor prysur o arholiadau ac asesiadau o'n blaenau - ceir manylion pellach yn y bwletin.

Os hoffech drafod unrhyw fater yna peidiwch ag oedi i godi'r ffôn (01758) 730220 neu yrru ebost:

pennaeth@botwnnog.gwynedd.sch.uk

Diolch,

Dylan Minnice

RHAI DYDDIADAU PWYSIG

Dyma rai dyddiadau pwysig ar gyfer eich dyddiaduron:

6 Mai	Diwrnod Calan Mai - Dim Ysgol
7 Mai - 18 Mehefin	Arholiadau TGAU (BI 10 ac 11 - Terfynol)
27 Mai - 31 Mai	Gwyliau Hanner Tymor
10 Mehefin	Mabolgampau'r Ysgol (i'w gadarnhau)
17 -24 Mehefin	Arholiad Llafar TGAU Saesneg BI 10 (Terfynol)
2-3 Gorffennaf	Arholiad Llafar TGAU Cymraeg Llenyddiaeth (Terfynol)
20 Mehefin	Prom BI 11
24 Mehefin - 5 Gorffennaf	Arholiadau Haf Blwyddyn 7, 8, 9
18 Gorffennaf	Diwrnod olaf y tymor i ddisgyblion - Gweler isod
22 Awst	Canlyniadau TGAU
4 Medi	Ysgol yn ail-agor i'r disgyblion

PWYSIG : Mae 'Terfynol' yn golygu bod marc yr asesiad/arholiad yn cyfrif tuag at radd derfynol y TGAU.

Gwybodaeth bellach am yr arholiadau ar dudalen 2 a 3 y bwletin yma.

DIWRNOD OLAF TYMOR YR HAF I DDISGYBLION

**DYDD IAU, GORFFENNAF 18 FYDD DIWRNOD OLAF
TYMOR YR HAF I DDISGYBLION.**

ADRODDIADAU INTERIM – BLYNYDDOEDD 7 – 10

Dylech fod wedi derbyn copi o Adroddiad Interim eich mab / merch cyn y Pasg. Prif nod yr Adroddiad yw monitro ymdrech a chynnydd y disgyblion. Braf sylwi fod mwyafrif llethol y disgyblion yn gweithio'n gyson galed ac yn gydwybodol hyd eithaf eu gallu ym mhob pwnc. Mae ambell i ddisgybl mewn ambell i bwnc wedi cael gradd C sef boddhaol neu radd D sef anfoddhaol am ymdrech. Bydd staff yn monitro diffyg ymdrech o'r fath. Byddwch chwithau fel rhieni yn awyddus rwy'n siŵr i'n cefnogi i wella agwedd ac ymdrech anfoddhaol o hyn hyd yr Haf. Cysylltwch â'r ysgol os hoffech drafod adroddiad eich mab / merch.

PRESENOLDEB

Mae presenoldeb da yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn yr Ysgol. Mae colli ysgol yn effeithio ar addysg eich plentyn. Mae presenoldeb disgyblion yr ysgol yn parhau i fod yn dda (95% ar gyfartaledd hyd yn hyn eleni). **Diolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth unwaith eto eleni.**

Credwn fod presenoldeb rhagorol yn allweddol i lwyddiant academaidd a chymdeithasol pob disgybl.

Mae presenoldeb o 95% yn swnio'n dda, ond dros 5 mlynedd o ysgol byddai hyn yn golygu fod disgybl yn colli bron i 250 o wersi!

Presenoldeb	100%	99%	98%	97%	96%	95%	94%	93%	92%	91%	90%	89%	88%	87%	86%	85%
Nifer o wersi wedi eu methu dros 5 mlynedd	0	48	95	143	190	238	285	332	380	428	475	523	570	618	665	713

Cydymdeimlir â disgyblion sydd yn sâl ond mae ambell ddisgybl yn colli ysgol am resymau annerbyniol.

Mae angen presenoldeb uchel er mwyn manteisio'n llawn ar yr addysg a gynigir yn yr ysgol.

“Mae pob disgybl yn cyfri — Mae pob diwrnod yn cyfri”

ARHOLIADAU

BLWYDDYN 11

Mae'n gyfnod arbennig o brysur i bob disgybl ym Mlwyddyn 11. Mae'n bwysig fod y disgyblion yn yr ysgol **bob dydd**. Mae angen gorffen y maes llafur ymhob pwnc, cwblhau gwaith cwrs, ymarfer hen gwestiynau ac adolygu yn drwyadl.

Byddwn yn aildrefnu'r amserlen ar adegau er mwyn trefnu cyfnodau adolygu dwys cyn rhai arholiadau.

Mae disgwyl i ddisgyblion Blwyddyn 11 ddod i'r ysgol bob dydd. Bydd athrawon yn adolygu gyda'r disgyblion. Mae'n bwysig fod disgyblion yn dod â gwaith adolygu gyda hwy i'r ysgol i gael y budd gorau o'r cyfnodau adolygu dwys.

Mae pwysau gwaith ar ein myfyrwyr hŷn ond mae'r staff yn yr ysgol yn barod iawn i'w helpu a'u harwain i gyrraedd eu llawn botensial yn yr arholiadau.

Os yw eich mab / merch yn cael trafferth gyda'u gwaith neu'n bryderus am agwedd o'u gwaith ysgol cysylltwch â'r ysgol i nodi hynny os gwelwch yn dda (i sylw'r Pennaeth neu'r Dirprwy - Mr. Geraint Hughes).

Dymuniadau gorau i bob disgybl ym Mlwyddyn 11 ar gychwyn cyfnod allweddol yn eu hanes.

Rhaid paratoi yn drwyadl a gweithio'n gyson galed i lwyddo yn yr Haf. Heb roi amser digonol i baratoi ni ddaw llwyddiant - **“Fail to prepare, prepare to fail”**. Dyna'r gri arferol o Fotwnnog yr adeg hon o'r flwyddyn - ac mae mor wir.

Edrychwn ymlaen i weld wynebau hapus ar ddiwrnod canlyniadau - **DYDD IAU, AWST 22^{ain}**

ARHOLIADAU ALLANOL - BLWYDDYN 10

Cynhelir 3 arholiad allanol Gwyddoniaeth TGAU yn ystod mis Mehefin i bawb - **Dyma'r unig gyfle fydd gan y disgyblion i sefyll yr arholiadau hyn ac maent yn cyfrif tuag at y radd derfynol TGAU.**

Mae yna hefyd arholiadau allanol, sydd yn cyfrif tuag at y radd derfynol, mewn unedau rhai pynciau eraill - rydych eisoes wedi cael amserlen personol ar gyfer eich mab/merch.

Mae'n hanfodol fod y disgyblion yn bresennol ar gyfer eu harholiadau ar y dyddiadau canlynol:-

Dydd Llun, 13 Mai	TGAU TGCH - Uned 1
Dydd Llun, 13 Mai	TGAU Astudiaethau Crefyddol
Dydd Mawrth, 14 Mai	BTEC Cyfryngau
Dydd Iau, 23 Mai	TGAU Llenyddiaeth Saesneg - Uned 2B
Dydd Gwener, 7 Mehefin.....	TGAU Gwyddoniaeth - Bywydeg
Dydd Mercher, 12 Mehefin.....	TGAU Gwyddoniaeth - Cemeg
Dydd Iau, 13 Mehefin.....	TGAU Llenyddiaeth Cymraeg - Uned 2
Dydd Gwener, 14 Mehefin.....	TGAU Gwyddoniaeth - Ffiseg

AMSERLENNI ARHOLIADAU ALLANOL - BLYNYDDOEDD 10 AC 11

Mae pob disgybl ym mlynnyddoedd 10 ac 11 wedi derbyn amserlen bersonol yn nodi eu harholiadau.

Mae amserlenni llawn ar gael ar wefan yr Ysgol— <http://ysgolbotwnnog.org/disgyblion.html>

PROFION DARLEN A RHIFEDD CENEDLAETHOL - BLYNYDDOEDD 7, 8 A 9

Mae holl ddisgyblion blwyddyn 7 - 9 yn sefyll profion cenedlaethol blynyddol.

Mae'r rhain yn cael eu cynnal mewn gwersi Cymraeg, Saesneg a Mathemateg yn y cyfnod **23 Ebrill —15 Mai**.

Cewch adroddiad ar berfformiad eich mab/merch yn adroddiad yr haf.

Mae gwybodaeth bellach am y profion hyn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

<http://learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/140420-information-for-parents-carers-2-9-cy.pdf>

ARHOLIADAU MEWNOL - BLYNYDDOEDD 7 - 9

Bl 7 - 9 - Cynhelir arholiadau mewnol yr ysgol ar gyfer blynyddoedd 7 - 9 ddiwedd y tymor yma: **24 Mehefin — 5 Gorffennaf**.

Mae sicrhau canlyniadau da yn yr arholiadau hyn yn bwysig. Bydd adrannau yn defnyddio'r canlyniadau hyn ynghyd â marciau'r flwyddyn i benderfynu ym mha setiau y mae disgyblion ar gyfer y tymor nesaf.

Dylai fod eich mab/merch yn dechrau adolygu ar gyfer yr arholiadau hyn yn ystod yr hanner tymor yma.

HELPU EICH MAB/MERCH I ADOLYGU

Gallwch gynorthwyo eich mab/merch i adolygu drwy:

- gynllunio amser penodol bob nos ar gyfer adolygu—mae sesiynau o tua hanner awr ar y tro gydag egwyl fach rhyngddynt yn aml yn gweithio'n dda.
- eu helpu i gynllunio amserlen adolygu ar gyfer pob pwnc;
- sicrhau lleoliad tawel iddynt gael gweithio;
- eu profi ar y gwaith.

Gellir cael gwybodaeth bellach am sut i gynorthwyo eich plant i adolygu ar wefannau fel BBC Bitesize.

<https://www.bbc.com/bitesize>

PROM BLWYDDYN 11

Bydd cyfle i ddisgyblion blwyddyn 11 ymlacio ar ôl yr arholiadau yn y Prom mae'r Ysgol yn ei drefnu ar eu cyfer yn Nant Gwrtheyrn. Mae hwn yn brynhawn hwyliog lle mae cyfle i flwyddyn 11 fwynhau pryd o fwyd, disgo a chymdeithasu mewn lleoliad hyfryd. Mae'n gyfle i'r Ysgol wobrwyo ymddygiad, presenoldeb ac ymdrech blwyddyn 11—ond cedwir yr hawl i wrthod disgyblion nad ydynt yn ymdrechu, sy'n ymddwyn yn amhriodol neu sy'n gyson absennol yn y cyfnod nesaf rhag cael mynd.

GWISG YSGOL

CRYS CHWYS SWEAT SHIRT	DU Gwddw crwn gyda bathodyn yr ysgol*	BLACK <i>Round neck sweatshirt with school badge*</i>
CRYS POLO POLO SHIRT	GWYN NEU DDU Plaen neu gyda logo'r ysgol wedi ei wnïo arno*	WHITE OR BLACK <i>Plain or with school logo embroidered*.</i>
TROSWUS TROUSERS	DU PLAEN NID yw denim, cords, gwaelod 'track suit', 'leggings', 'jeggings' na throwsus combat yn dderbyniol. Nid yw trowsusau sydd wedi colli eu lliw neu wedi eu rhwygo yn dderbyniol.	PLAIN BLACK <i>Denims, cords, track suit bottoms, 'leggings', 'jeggings' and combat trousers are NOT acceptable. Faded and ripped trousers are not acceptable.</i>
SGERT SKIRT	DU PLAEN Sgert ysgol rhesymol o hyd gyda theits duon.	PLAIN BLACK <i>School skirt of a reasonable length with black tights.</i>
ESGIDIAU SHOES	DU PLAEN Esgidiau / trainers unlliw (Fflat) - dim ysgrifen/logos gwyn/llwyd/lliw.	PLAIN BLACK <i>Shoes/trainers (Flat) - no white/grey/coloured logos/writing.</i>
COTIAU,HWDIS, AYYB COATS, HOODIES, ETC	Nid oes rheol ar gyfer y math/lliw o gôt a chaniateir - ond ni ddylid ei gwisgo tu fewn i'r ysgol - Gellir eu cadw yn y loceri neu yn eu bagiau yn ystod y dydd.	<i>There is no rule regarding type/colour of coat allowed - but it may not be worn inside school - they can be placed in lockers or bags during the day.</i>
GEMWAITH JEWELLERY	Caniateir un pâr o ' studs ' bach clust ac UN fodrwy (ar fys) yn unig. Dim mwclis na breichledau. Gallwn ofyn i ddisgyblion dynnu unrhyw emwaith arall.	One pair of small studs may be worn in the ears and ONE ring (worn on a finger) only. <i>No necklaces or bracelets. Pupils can be asked to remove any other jewellery.</i>
DILLAD AC OFFER YMARFER CORFF P.E. KIT AND EQUIPMENT	Crys polo MELYN (AUR) plaen neu gyda logo'r ysgol wedi ei wnïo arno*, siorts du, sanau pen-glin duon. Trainers (dim 'Vans') ac esgidiau pêl droed/blades Gellir gwisgo gwisg trac lliw tywyll yn ystod y Gaeaf. Bydd cyfle i archebu hwdi ymarfer corff gydag enw'r disgybl arno yn ystod y tymor cyntaf pe dymunir. Offer diogelwch personol: Gorfodol: 'Shin Pads' – gorfodol ar gyfer hoci a phêl droed. Dymunol: Cap sgrym ar gyfer rygbi a tharian ceg ar gyfer hoci a rygbi. RHAID TYNNU gemwaith yn ystod gweithgareddau ymarfer corff am resymau iechyd a diogelwch.	YELLOW (GOLD) polo shirt -plain or with embroidered school logo*, black shorts, black knee length socks. <i>Trainers (not 'Vans') and football boots/blades, A dark coloured track suit may be worn during the winter.</i> <i>There will be an opportunity to order a physical education hoodie with the pupil's name on it during the first term, is so desired.</i> Personal Protective Equipment: Compulsory: 'Shin Pads' – compulsory for hockey and football Desirable: Scrum cap for rugby & gum shield for hockey and rugby All Jewellery MUST BE REMOVED during physical education activities for health and safety reasons.
GWISG YR HAF SUMMER UNIFORM	Rhoddir caniatad i wisgo shorts du plaen yn ystod cyfnodau o dywydd poeth - cewch fwy o wybodaeth yn ystod tymor y Pasg.	<i>Permission is given to wear shorts during hot weather - further information about this will be given during Easter term.</i>

*ar werth yn yr ysgol am £15.00

*available from school for £15.00

Hoffwn eich hatgoffa am reolau esgidiau ysgol. Rhaid i unrhyw esgidiau neu trainers fod yn ddu yn unig. Ni chaniateir unrhyw ysgrifen, logos, gwadnau na charrai nad ydynt yn ddu (NID LLWYD!)



TYWYDD POETH - DIOGELU RHAG LLOSG HAUL

Yn y blynyddoedd diwethaf mae achosion o ganr y croen wedi cynyddu. **Dylai disgyblion ofalu eu bod yn rhoi eli haul ffactor uchel** pan fo tywydd yn boeth yn enwedig rhwng 11 y bore a 3 y prynhawn, fel nad ydynt yn llosgi - hyd yn oed os yw hi'n gymylog, mae yna dal risg o losgi.

Mae'n bwysig felly, fod disgyblion yn rhoi eli haul pan fyddant yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau awyr agored—gwersi addysg gorfforol, diwrnod Mabolgampau ac yn y blaen. Os ydynt yn anghofio eli haul eu hunain dylent ofyn i'w hathrawon.

GWISG YSGOL TYWYDD POETH

Cawsoch y wybodaeth isod am y newid i bolisi gwisg ysgol ar gyfer tywydd poeth cyn y Pasg. Buaswn yn falch o glywed unrhyw sylwadau gennych am y polisi hwnnw.

Gan obeithio y byddwn yn blasu tywydd braf rydym wedi penderfynu rhoi caniatâd i ddisgyblion wisgo **SIORTS DU PLAEN O HYD RHESYMOL** gyda **SANNAU DUON NEU GWYNIION** yn ystod cyfnodau o dywydd poeth.

Bydd y polisi yma yn weithredol ar gyfer y cyfnod rhwng **GWYLIAU HANNER TYMOR Y SULGWYN A'R HAF**. Os byddwn yn penderfynu caniatáu gwisgo shorts cyn hynny, oherwydd tywydd poeth, yna byddwn yn eich hysbysu drwy e-bost.

*In the hope that we get some warm weather we have decided to allow pupils to wear **PLAIN BLACK SHORTS OF A REASONABLE LENGTH** with **BLACK OR WHITE SOCKS** during periods of hot weather.*

*This policy will be active in the period between **WHITSUN HALF-TERM AND SUMMER HOLIDAYS**. If we decide to allow the wearing of shorts sooner, due to hot weather, we will notify you by email.*

Byddwn yn caniatáu'r canlynol / Acceptable



SIORTS WEDI TEILWRA
TAILORED SHORTS



SHORTS CHWARAEON DU
HOLLOL BLAEN - DIM
PATRWIM NA LOGOS
PLAIN BLACK SPORT
SHORTS - NO
PATTERN/LOGOS



CULOTTES



SKORT

Ni fyddwn yn caniatáu / Not acceptable:



LYCRA TYNN GAN GYNNWYS SIORTS
SEICLO
TIGHT LYCRA INCLUDING CYCLING
SHORTS



SIORTS CHWARAEON
GYDA LOGOS, AYYB
SPORTS SHORTS WITH
LOGOS, ETC



COMBATS



SIORTS
DENIM/CUTOFFS
SHORTS

HYD RHESYMOL = AT Y PEN-GLIN
REASONABLE LENGTH = TO THE KNEE

